Gwanwyn 2023

# Newyddion y Prosiect

Y prosiect i newid y ceblau tanddaear o Ddinorwig i Bentir



## Ateb rhai o'ch cwestiynau




**Victoria Haworth**

Uwch-reolwr y Prosiect, National Grid

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'r trigolion a'r busnesau am fod mor amyneddgar tra byddwn yn gwneud ein gwaith hanfodol.**

A minnau'n Uwch-reolwr y Prosiect, roeddwn yn awyddus i ateb rhai o'r cwestiynau cyffredin mae pobl yn eu gofyn i ni. Cewch ragor o wybodaeth, gan gynnwys y newyddion diweddaraf am ein gwaith a dogfen Cwestiynau Cyffredin (FAQs), ar wefan y prosiect.

**Victoria Haworth**



## Fe ofynnoch chi…

**C Pam y mae angen i chi wneud y gwaith hwn?**

**A** Mae Gorsaf Bŵer Dinorwig, a elwir hefyd yn 'Mynydd Gwefru', yn cael ei rhedeg a'i chynnal gan First Hydro Company. Mae'n rhan hanfodol o rwydwaith trydan Cymru a Lloegr. Mae'n cynhyrchu pŵer ychwanegol yn gyflym pan fydd y galw am drydan ar ei uchaf, gan ein helpu i ddarparu cyflenwad dibynadwy i gartrefi a busnesau Prydain. Mae'n cymryd llai nag 16 eiliad i Orsaf Bŵer Dinorwig gynhyrchu hyd yr eithaf.

Mae angen i ni newid y ceblau tanddaear presennol sy'n cludo trydan rhwng Gorsaf Bŵer Dinorwig a'n his-orsafoedd ym Mhentir a Phenisa'r-waun. Gosodwyd y ceblau gwreiddiol ddiwedd yr 1970au ac maent yn cael eu defnyddio byth er hynny. Erbyn hyn, maent yn cyrraedd diwedd eu hoes weithredol ac mae angen eu newid er mwyn sicrhau bod y cyflenwadau trydan i'r ardal leol a'r tu hwnt yn dal yn gadarn.

**C Pam y mae angen i chi roi'r ceblau newydd o dan y ddaear?**

**A** Mae angen i Orsaf Bŵer Dinorwig ddal i weithio tra byddwn ni'n gwneud ein gwaith. Gan ei bod yn chwarae rhan mor bwysig, allwn ni ddim o'i datgysylltu o'r rhwydwaith tra byddwn yn gosod y ceblau newydd. Rydym yn cadw'r ceblau o dan y ddaear er mwyn sicrhau bod yr ardal wledig yn dal i edrych fel y mae yn awr, yn hytrach na defnyddio llinellau uwchben ar beilonau.

**C Pam y mae'ch gwaith yn cymryd cymaint o amser?**

**A** Mae hwn yn brosiect mawr a chymhleth sydd â llawer o elfennau technegol, gan gynnwys croesi ffyrdd, afonydd a chaeau. Rydym wedi dod ar draws tir y mae'n anodd iawn gweithio arno ar hyd yr A4086, gyda darnau hynod heriol o ithfaen a chraig folcanig. Mae'r graig yma yn un o'r caletaf a welodd y tîm erioed, ac mae'n anodd torri trwyddi, hyd yn oed ag olwynion torri arbennig â blaen diemwnt.

**Parhad ar dudalen 2**

nationalgrid

## Ateb rhai o'ch cwestiynau (parhad)

**C Pam y mae'ch gwaith yn cymryd cymaint o amser? (parhad)**

**A** Rydym yn ymdrechu i gwblhau'r gwaith cyn gynted ag y gallwn. Rydym yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i gynllunio'n gwaith yn ofalus ac ystyriol, gan greu cyn lleied o drafferth â phosibl.

**C Pam y mae angen cymaint o oleuadau traffig arnoch?**

**A** Mae'n bwysig iawn i ni ddefnyddio goleuadau traffig dros dro i gadw ein gweithwyr a defnyddwyr y ffyrdd yn ddiogel.

Rydym yn gosod ein ceblau newydd ar un ochr i'r ffordd gerbydau ar hyd llawer o'r A4086 a'r A4244. Felly, gallwn gadw un lôn yn agored a defnyddio goleuadau traffig dros dro i gadw'r traffig i symud.

Rydym bob amser yn ystyried sawl grŵp o weithwyr sydd gennym ar bob ffordd, gan gydbwyso unrhyw oedi â'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r gwaith i gyd. Rydym yn ceisio creu cyn lleied â phosibl o anhwylustod, er enghraifft trwy amrywio amseriad y goleuadau traffig dros dro ar yr adegau prysuraf yn y bore a gyda'r nos.

Mae ein goleuadau traffig dros dro wedi'u gosod fel bod pob un yn troi'n goch os bydd rhywun yn anwybyddu golau coch. Bwriad hyn yw sicrhau nad oes cerbydau'n cyfarfod benben. Felly, rydym yn annog pawb i beidio ag anwybyddu goleuadau coch.

**C Pam y mae amserlen eich gwaith yn newid?**

**A** Oherwydd natur ein gwaith mae'n rhaid i ni newid ein mannau gweithio a'n hamserlen o bryd i'w gilydd, oherwydd ffactorau fel cyflwr y ddaear neu dywydd drwg. Ond rydym yn gwneud ein gorau i beidio â gwneud hyn os nad oes rhaid.

**C Pa iawndal sydd ar gael i bobl a busnesau?**

**A** Mae pawb ohonom yn defnyddio trydan bob dydd. Er bod ein gwaith yn achosi anhwylustod tymor byr, bydd hefyd yn sicrhau bod cartrefi a busnesau yn yr ardal a'r tu hwnt yn cael cyflenwadau diogel a dibynadwy am ddegawdau.

Nid ydym yn gallu digolledu am effeithiau anuniongyrchol sy'n deillio o fesurau rheoli traffig dros dro ar ffyrdd tra byddwn yn gwneud y gwaith hanfodol hwn.

Un o'r ffyrdd rydym yn cyfrannu at y cymunedau ble rydym yn gweithio yw trwy ein Rhaglen Grantiau Cymunedol. Rydym eisoes wedi rhoi grantiau yn lleol ac rydym yn gwahodd rhagor o geisiadau. Cewch ddarllen mwy am hyn ar y dudalen nesaf.

## Y gwaith sydd ar y gweill

Rydym wedi bod yn gosod dwythellau yn yr A4244 a'r A4086 i gario ein ceblau newydd. Yn ogystal, rydym yn gosod dwythellau ceblau ym maes parcio Ger y Llyn a'r maes chwarae gerllaw yn Llanberis. Defnyddir goleuadau traffig dros dro am gyfnod byr ger ein gwaith yn y maes chwarae gan y bydd mor agos at yr A4086. Mae gwaith i osod dwythellau ceblau o dan Afon y Bala, ger Gorsaf Bŵer Dinorwig, yn parhau.

Ym mis Mehefin eleni, byddwn yn dechrau cam nesaf ein gwaith sy'n cynnwys tynnu ceblau trydan mawr iawn a thrwm, hyd at 1km o hyd, trwy'r dwythellau a osodwyd gennym o dan y ddaear.

Byddwn yn eu tynnu trwodd ac yn eu huno mewn mannau a elwir yn faeau uniadau wedi'u cloddio yma a thraw ar hyd y llwybr. Bydd rhai o'r baeau hyn mewn cilfannau neu o dan yr A4086 a'r A4244. Bydd eraill mewn caeau a'r tu mewn i Orsaf Bŵer Dinorwig.



Pan fyddwn yn gweithio ar ffyrdd yr ardal, bydd angen rheoli traffig.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gosod ceblau o dan afon Rhythallt mewn dau fan, ger Brynrefail a Llanrug. Mewn caeau y gwneir y gwaith hwn a bydd wedi'i osod yn ôl o'r A4086 ond gall fod yn weladwy o ffyrdd a llwybrau troed.

# Yn y gymuned

### Offer awyr-agored newydd yn Ysgol Gynradd Bethel

Mae ein Rhaglen Grantiau Cymunedol yn rhoi grantiau o hyd at £20,000 i brosiectau lleol sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a grwpiau cymunedol ac sy'n ateb gofynion cymunedau lleol drwy gynnig manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Cafwyd cais llwyddiannus yn ddiweddar gan Ysgol Gynradd Bethel, a chawsant £20,000 i brynu offer chwarae awyr-agored newydd (yn y lluniau). Rydym wrthi'n ystyried ceisiadau eraill a hoffem annog grwpiau eraill yn yr ardal i wneud cais.



### Cymhorthfa agored Mehefin

Rydym yn cynnal ein cymhorthfa agored nesaf yng Nghanolfan Gymunedol Llanberis ar 7 Mehefin rhwng 4pm a 7pm. Yma, cewch gyfarfod â'n tîm a gofyn cwestiynau i ni am ein prosiect.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael siarad ag aelod o'n tîm, gofynnwn i chi gofrestru ymlaen llaw am slot 20 munud. Gallwch drefnu slot drwy ein ffonio ar 0330 1340066 neu anfon neges ebost atom yn nationalgrid@dinorwig.co.uk




### Rhaglen Grantiau Cymunedol

A allai'ch grŵp neu'ch achos da chi elwa ar y rhaglen?

Mae ein Rhaglen Grantiau Cymunedol yn addas ar gyfer mudiadau cymunedol ac elusennau mewn ardaloedd lle mae gwaith National Grid Electricity Transmission yn effeithio ar y trigolion.

Os gwyddoch am brosiect a allai elwa ar ein rhaglen, byddai'n dda clywed oddi wrthych.

I gael gwybod sut i ymgeisio a beth yw'r gofynion, ewch i: **www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme**

# Cysylltu

Os hoffech wybod rhagor, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ffonio ein rhif rhadffôn: **0330 1340066**

Anfon neges ebost: **nationalgrid@dinorwig.co.uk**

**nationalgrid.com/uk/electricity-transmission/network-and-infrastructure/dinorwig-pentir**

Ailgylchwch os gwelwch yn dda

nationalgrid